Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cofnod o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

Creu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru

FERSIWN 4 – GORFFENNAF 2026

Crynodeb o'r cynnig

Y cynnig yw sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru er mwyn negodi Cytundeb Cyflog Teg y gellir ei orfodi'n gyfreithiol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Byddai'r cytundeb yn pennu safonau gofynnol ar gyfer cyflog, telerau ac amodau, a materion ehangach sy'n ymwneud â chyflogaeth drwy gydfargeinio sectoraidd rhwng undebau llafur a chyflogwyr. Ei ganlyniadau bwriadedig yw grymuso gweithwyr, atgyfnerthu partneriaeth gymdeithasol a chynrychiolaeth undebau llafur, gwella cydnabyddiaeth a gwobrwyo am waith gofal cymdeithasol a helpu i wella cynhyrchiant a safonau byw. Gallai'r cynnig effeithio ar weithwyr gofal cymdeithasol, cyflogwyr, undebau llafur, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, darparwyr gwasanaethau ac, yn anuniongyrchol, bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Cwestiynau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

1. **Sut mae'r pum ffordd o weithio wedi dylanwadu ar ddatblygiad a gweithrediad y polisi neu'r ddeddfwriaeth hon?**

   Lluniwyd y cynnig i fod yn ymateb hirdymor i heriau parhaus sy'n gysylltiedig â'r gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys cyflog isel, pwysau o ran recriwtio a chadw staff a'r angen am fwy o gydnabyddiaeth i rôl y gweithlu. Gan gynnwys y Cyflog Byw Gwirioneddol a gwaith y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, mae'r polisi yn adeiladu ar waith i sefydlu mecanwaith statudol ar gyfer negodi safonau gofynnol gorfodadwy ar gyfer cyflog, telerau ac amodau.

   Roedd cydweithio a chynnwys yn rhan greiddiol o'r broses o ddatblygu'r polisi. Cafodd y cynigion eu llywio gan y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, sy'n cynnwys undebau llafur, cynrychiolwyr cyflogwyr, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru, a chan ymgynghoriad cyhoeddus ar ddatblygu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn gweithwyr gofal cymdeithasol, cyflogwyr, cyrff cynrychioliadol, undebau llafur, awdurdodau lleol, darparwyr ac unigolion, ac mae'r ymatebion wedi llywio agweddau allweddol ar y model arfaethedig, gan gynnwys strwythur y Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru, cynrychiolaeth gweithwyr a chyflogwyr, rôl Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a chomisiynwyr, a'r angen am ganllawiau a gohebiaeth glir.

   Mae'r polisi hefyd yn adlewyrchu integreiddio drwy ystyried y cysylltiadau rhwng cyflog teg, llesiant y gweithlu, cynaliadwyedd gwasanaethau, comisiynu, cyllido, cydraddoldeb, ystyriaethau o ran y Gymraeg ac ansawdd a pharhad gofal i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Bydd cylch gwaith arfaethedig y Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru yn caniatáu i drafodaethau ystyried cyflog a thelerau ac amodau craidd i ddechrau, gan ei gwneud yn bosibl, ar yr un pryd, i faterion ehangach sy'n ymwneud â'r gweithlu, megis hyfforddiant, dilyniant gyrfa, llesiant, diwylliant sefydliadol a recriwtio a chadw staff, hefyd gael eu hystyried lle maent yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth ac adnoddau.

Mae'r dull gweithredu yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio drwy nodi amserlen fesul cam ar gyfer sefydlu'r Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru, penodi aelodau, dechrau trafodaethau a rhoi'r Cytundeb Cyflog Teg cyntaf ar waith o 2028. Mae hefyd yn cydnabod bod angen dysgu o'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol, yn enwedig o ran tryloywder a sicrwydd cyllid, a pharhau i asesu fforddiadwyedd, cyflawnadwyedd a chanlyniadau anfwriadol posibl i gyflogwyr, comisiynwyr, unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain, gweithwyr a phobl sy'n cael gofal.

2. Â phwy rydych chi wedi cydweithio a phwy rydych chi wedi'i gynnwys wrth ddatblygu'r cynnig, ac er mwyn deall ei effeithiau, gan gynnwys ar bobl, aelwydydd, cyrff cyhoeddus, busnesau a'r trydydd sector (e.e. drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol neu ymgynghori â'r cyhoedd?)

Mae'r pwerau sy'n galluogi sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru yn deillio o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 2025 Llywodraeth y DU ("Deddf 2025"), a'r Cydsyniad Brenhinol a roddwyd ar 18 Rhagfyr 2025. Mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sefydlu'r Corff Negodi Gofal Cymdeithasol a'r broses ar gyfer dod i Gytundeb Cyflog Teg. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r darpariaethau a ddarparwyd iddi yw'r ffordd fwyaf cydlynol ac effeithiol o gyflawni'r nod hwn, gan hybu mwy o gysondeb o ran hawliau ac amddiffyniadau'r gweithlu gofal cymdeithasol ledled gwledydd y DU.

Datblygodd Llywodraeth Cymru y cynnig drwy drefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol, gan gynnwys y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol a Phartneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Cynhaliwyd hefyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol wyth wythnos o hyd ar ddatblygu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru. Daeth 63 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law gan weithwyr gofal cymdeithasol, unigolion, darparwyr, undebau llafur, cyrff cynrychioliadol, awdurdodau lleol, rheoleiddiwr ac elusen. Gwnaeth hyn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall yr effeithiau posibl ar weithwyr, cyflogwyr, comisiynwyr, cyrff cyhoeddus, busnesau, y trydydd sector, pobl sy'n cael gofal, gan gynnwys unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a gofalwyr di-dâl.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru weminarau hefyd ac aeth i gyfarfodydd dan arweiniad rhanddeiliaid er mwyn esbonio'r cynigion, ateb cwestiynau a chasglu safbwyntiau pellach. Cododd rhanddeiliaid faterion gan gynnwys cynrychiolaeth, fforddiadwyedd, comisiynu, cynaliadwyedd darparwyr, gweithredu, cwmpas y gweithlu, y Gymraeg, cydraddoldeb ac effeithiau posibl ar bobl sy'n defnyddio gofal neu'n talu amdano. Mae'r ymatebion wedi llywio'r model arfaethedig, gan gynnwys strwythur ac aelodau'r Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru, rolau cynghori i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol a'r angen am ganllawiau a gohebiaeth glir. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnwys partneriaid perthnasol drwy ddatblygu rheoliadau, asesiadau effaith, canllawiau a threfniadau gweithredu.

3. **Sut mae'r polisi yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a chanlyniadau llesiant hirdymor?**

Effaith uniongyrchol y cynnig hwn yw sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru. Bydd yr effeithiau tymor hwy a ddisgrifir isod yn ddibynnol ar gynnwys Cytundebau Cyflog Teg yn y dyfodol.

Mae sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i negodi Cytundebau Cyflog Teg yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwy fabwysiadu dull hirdymor o wella cyflog, telerau ac amodau yn y sector gofal cymdeithasol, er mwyn helpu i sicrhau gweithlu mwy sefydlog a chynaliadwy a werthfawrogir yn fwy. Trwy sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol statudol a Chytundebau Cyflog Teg, bwriad y polisi yw helpu i atal pwysau parhaus ar y gweithlu, gan gynnwys heriau o ran recriwtio a chadw staff, rhag gwaethygu ac effeithio ar ansawdd a pharhad gofal. Gallai hefyd gefnogi canlyniadau llesiant hirdymor drwy geisio gwella safonau byw gweithwyr gofal cymdeithasol, y mae llawer ohonynt mewn rolau â chyflog is, gan gyfrannu at hyrwyddo gwaith teg, lleihau anghydraddoldeb a chreu economi sylfaenol gryfach ar yr un pryd. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar yr hyn a gaiff ei negodi yn y pen draw, sut y caiff ei ariannu a'i roi ar waith.

Mae'r cynnig hefyd yn cefnogi integreiddio ar draws nodau llesiant drwy gysylltu cyflog ac amodau'r gweithlu â chynaliadwyedd gwasanaethau, comisiynu, cydraddoldeb, ystyriaethau o ran y Gymraeg a llesiant pobl sy'n cael gofal. Tros amser, gallai gweithlu sy'n cael gwell cymorth helpu i wella gwydnwch gwasanaethau gofal cymdeithasol a gall gyfrannu at gymunedau iachach, mwy cyfartal a mwy cydlynol yng Nghymru.

4. **Beth yw'r effeithiau allweddol (cadarnhaol, negyddol, a chyfleoedd) ymhob un o'r saith nod lles?**

Cymru lewyrchus: Mae gan y gwaith o sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru i sicrhau Cytundebau Cyflog Teg y potensial i gael effaith gadarnhaol drwy wella cyflog, telerau ac amodau gweithwyr gofal cymdeithasol, cefnogi gwaith teg, codi safonau byw a helpu i recriwtio a chadw gweithwyr yn un o sectorau allweddol yr economi sylfaenol. Mae'n bosibl hefyd y bydd cyfle i wella cynaliadwyedd a chynhyrchiant y gweithlu, er y bydd angen rheoli fforddiadwyedd a chynaliadwyedd darparwyr yn ofalus, yn enwedig ar gyfer darparwyr llai o faint a'r sector gwirfoddol.

Cymru gydnerth: Ni ddisgwylir i sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru gael effaith amgylcheddol uniongyrchol sylweddol. Fodd bynnag, gallai gweithlu gofal cymdeithasol mwy sefydlog gefnogi gwydnwch ehangach cymunedau a gwasanaethau, yn enwedig lle mae gwasanaethau gofal o dan bwysau.

Cymru iachach: Gallai gwell cyflog ac amodau cyflogaeth gefnogi llesiant gweithwyr gofal cymdeithasol a helpu i wella parhad ac ansawdd gofal i bobl sy'n dibynnu ar wasanaethau. Gallai gwasanaethau gofal mwy sefydlog a chynaliadwy hefyd arwain at fanteision ehangach i'r system, gan gynnwys gefnogi, o bosibl, y prosesau ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol a helpu pobl i gael gofal yn nes at y cartref.

Cymru sy'n fwy cyfartal: Gallai'r Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru a'r Cytundebau Cyflog Teg dilynol leihau anghydraddoldeb drwy wella canlyniadau i weithlu sydd ar gyflogau is ar y cyfan a helpu i sicrhau mwy o gysondeb o ran cyflog a thelerau ym mhob rhan o'r sector. Nododd ymatebion i'r ymgynghoriad effeithiau cadarnhaol tebygol ar gyfer grwpiau â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys menywod, gweithwyr hŷn a gweithwyr ethnig lleiafrifol, er y bydd angen asesu'n barhaus yr effeithiau ar unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain, pobl anabl, pobl hŷn sy'n cael gofal a gofalwyr di-dâl, unwaith y bydd y Cytundebau Cyflog Teg wedi'u rhoi ar waith.

Cymru o gymunedau cydlynus: Gallai gweithlu gofal cymdeithasol mwy sefydlog a werthfawrogir yn fwy gefnogi parhad gofal, gwydnwch gwasanaethau lleol a llesiant cymunedol. Mae cyfle i gryfhau cydberthnasau rhwng gweithwyr, cyflogwyr, comisiynwyr a'r llywodraeth drwy bartneriaeth gymdeithasol.

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: Gallai'r cynnig gefnogi cymunedau Cymraeg drwy helpu i gadw gweithwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys staff sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd lle y siaredir Cymraeg. Mae cyfle i ganllawiau, gwaith cynllunio'r gweithlu a negodiadau yn y dyfodol gefnogi darpariaeth Gymraeg ac egwyddorion 'Mwy na Geiriau', gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang: Nod y cynnig yw cefnogi llywodraethu cyfrifol drwy hyrwyddo gwaith teg, partneriaeth gymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnig cyfle i ddangos dull ataliol, hirdymor o ymdrin â pholisi'r gweithlu, gan sicrhau, ar yr un pryd, bod fforddiadwyedd, tryloywder a gwerth am arian yn cael eu hystyried cyn i Gytundebau Cyflog Teg gael eu rhoi ar waith.

5. Pa dystiolaeth, gan gynnwys adroddiadau o dan y Ddeddf, sydd wedi llywio'r polisi, a sut y bydd yn cefnogi'r broses barhaus o wneud penderfyniadau?

Mae'r polisi wedi'i arwain gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae'r gwaith o ddatblygu cynigion i Gymru wedi'i lywio gan egwyddorion Llywodraeth Cymru o gydweithio a phartneriaeth gymdeithasol drwy gyfuniad o gyd-destun statudol, tystiolaeth rhanddeiliaid ac ystyriaethau ehangach o ran llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae tystiolaeth yn cynnwys yr ymgynghoriad ar ddatblygu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru, ymatebion gan weithwyr, darparwyr, undebau llafur, cyrff cynrychioliadol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill, a gweithgarwch ymgysylltu drwy weminarau a chyfarfodydd dan arweiniad rhanddeiliaid. Mae hefyd wedi cael ei lywio gan waith partneriaeth gymdeithasol presennol drwy'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol a'r Fframwaith Cyflog a Dilyniant a ddatblygwyd ganddo, Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a gwersi a ddysgwyd o'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol a'r gwerthusiad annibynnol ohono.

Bydd tystiolaeth ehangach am fforddiadwyedd, comisiynu, cynaliadwyedd y gweithlu, cydraddoldeb, effeithiau ar y Gymraeg, unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain, gofalwyr di-dâl a chynaliadwyedd darparwyr yn parhau i lywio rheoliadau, llythyrau cylch gwaith, asesiadau effaith a chanllawiau gweithredu yn y dyfodol. Bydd

adroddiadau a dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio, yn cefnogi'r broses barhaus o wneud penderfyniadau drwy sicrhau bod y polisi yn parhau i ganolbwyntio ar atal, cynaliadwyedd hirdymor y gweithlu, cydweithio, cynnwys ac integreiddio ar draws gofal cymdeithasol, iechyd, llywodraeth leol a chanlyniadau gwasanaethau cyhoeddus ehangach.

Bydd y sail dystiolaeth yn parhau i ddatblygu wrth i'r broses o roi'r polisi ar waith fynd rhagddi, yn enwedig mewn perthynas â fforddiadwyedd, cynaliadwyedd darparwyr, effeithiau ar unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a'r canlyniadau tymor hwy i'r gweithlu sy'n gysylltiedig â Chytundebau Cyflog Teg.

Crynodeb o'r Asesiadau Effaith ar gyfer y cynnig hwn

Mae'r effeithiau a amlinellir isod yn adlewyrchu'r effeithiau hirdymor posibl yn sgil sefydlu'r Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru a'r Cytundebau Cyflog Teg dilynol. Bydd natur a graddfa'r effeithiau yn dibynnu ar ganlyniadau a negodir a threfniadau gweithredu yn y dyfodol.

Rhaid cyhoeddi (os yw'r Asesiad Effaith yn ofynnol)

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Wedi'i gyhoeddi: **Ydy**

Asesiad Effaith Hawliau Plant

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Wedi'i gyhoeddi: **Ydy**

Asesiad Effaith Iechyd

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Wedi'i gyhoeddi: **Ydy**

Asesiadau Effaith Eraill

Asesiad Effaith y Gymraeg

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad Effaith Diogelu Data

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad Effaith Bioamrywiaeth

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad Effaith Carbon

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad Effaith y Ddyletswydd Ansawdd (Iechyd)

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad Effaith Economaidd-gymdeithasol

Wedi'i gwblhau: **Ydy**